Comisiwn Ffiniau i Gymru

Boundary Commission for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2023 – Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

ymholiadau@ffiniau.cymru Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o'n gwefan yn

www.comffin-cymru.gov.uk

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Rhagair | 04 |
| Pennod 2 | Cyflwyniad | 06 |
| Pennod 3 | Amcanion | 09 |
| Pennod 4 | Canlyniadau | 10 |
| Pennod 5 | Cyllideb a Gwariant | 11 |
| Pennod 6 | Rhaglen Waith ar gyfer 2023/24 | 13 |

# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Comisiwn Ffiniau Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23.

Roedd y prif weithgareddau yn ystod 2022-23 yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Diwygiedig yn ogystal â chynnal cyfnod ymgynghori 4 wythnos ar y cynigion diwygiedig hynny. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 19 Hydref 2022 a 15 Tachwedd 2022. Cyhoeddodd y Comisiwn hefyd y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd a thrawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

Tua diwedd y flwyddyn ariannol, dechreuodd y Comisiwn ei baratoadau ar gyfer yr Adroddiad Argymhellion Terfynol.

**Yr Anrh. Mrs Ustus Jefford DBE**

**Dirprwy Gadeirydd**


CARDIFF
Penarth
NEWPORT
Portishead
Clevedon
Yatton
Congresbury
Barry
Axbridge
Llandaff
Cogan

# Cyflwyniad

## Y Noddwr

1.1 Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol ymgynghorol a noddir ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac Ysgrifennydd y Comisiwn (gweler yr Aelodaeth isod).

## Y Comisiwn

1.2 Cyfansoddir y Comisiwn o dan adran 2 ac atodlen 1 o Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n gorff annibynnol, anwleidyddol, a hollol ddiduedd. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni ystyrir effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol.

1.3 Yn weithredol o 1 Ionawr 2002, mae swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (LDBCW)[1], sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, hefyd wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol oddi wrth ei gilydd.

## Aelodaeth

1.4 Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodiad y Llefarydd yn pwysleisio'r annibyniaeth, didueddrwydd, a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Llefarydd yn chwarae unrhyw ran yn y gwaith o gynnal adolygiadau. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu dros y cyfarfodydd, yn Farnwr Uchel Lys: Yr Anrhydeddus Mrs Ustus Jefford. Yr Aelodau yw Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam Hartley (y ddau wedi'u penodi o 05 Hydref 2020).

---

1 Newidiwyd yr enw o Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

1.5 Mae'r Comisiynwyr yn benodiadau rhan-amser sy'n cwrdd pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn mynnu. Mae Aelodau'r Comisiwn (heb gynnwys y Dirprwy Gadeirydd) wedi cael ffi ddyddiol y cytunwyd arni gan yr Adran Noddi gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, am waith a wneir ar ran y Comisiwn a, gyda'r Dirprwy Gadeirydd, mae ganddynt hawl i adennill unrhyw gostau (megis teithio a chynhaliaeth) a gafodd ei wario ar waith y Comisiwn.

1.6 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau'r Aelodau, sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.

1.7 Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Cenedlaethol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Cynrychiolir y ddau gan ddirprwyon dynodedig yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

1.8 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. O dan y trefniadau Ysgrifenyddiaeth ar y cyd, yr Ysgrifennydd, Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL hefyd yw Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

1.9 Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr i gynnal eu hadolygiadau ac wrth weithredu eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi'i lleoli yn swyddfeydd yr Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yng Nghaerdydd ac mae cyswllt ynghylch staffio ac adeiladau yn digwydd gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a Llywodraeth Cymru. Mae'r berthynas waith hon wedi'i chwmpasu gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau Gomisiwn a'u cyrff noddwr priodol.

## Dyletswyddau Statudol

1.10 Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu'n barhaus ddosbarthiad y seddi mewn etholiadau Seneddol, cynnal adolygiadau rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a gwneud adroddiadau gydag argymhellion i Weinidog Swyddfa'r Cabinet yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).

1.11 Gwnaeth Deddf Etholaethau Seneddol 2020 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthu seddi Seneddol.

1.12 Dynododd y Ddeddf etholaeth Ynys Môn hefyd fel 'etholaeth warchodedig', cyflwynodd reol 'awtomeiddio' ar weithredu argymhellion y pedwar Comisiwn Ffiniau a gwnaeth newidiadau i'r broses ymgynghori.

# Amcanion

## Amcan Cyffredinol

2.1 Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus.

## Amcan Penodol ar gyfer 2022/23

2.2 Amcanion y Comisiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 oedd:

- I fod wedi cyhoeddi'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfnod ymgynghori eilaidd a thrawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus
- Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol i ddatblygu'r Adroddiad Cynigion Diwygiedig sydd i'w gyhoeddi yn yr Hydref 2022;
- Cyhoeddi pob copi caled a dogfennaeth electronig ar gyfer cyhoeddi'r cynigion diwygiedig;
- Cynnal ymgynghoriad 4 wythnos ar yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig;
- Ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd a datblygu'r Adroddiad Argymhellion Terfynol;
- Paratoi adroddiad ar weithrediad Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn; a
- Darparu diweddariad i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin ar y gwaith a wnaed gan y Comisiwn yn ail flwyddyn Adolygiad 2023.

## Safonau'r Gymraeg

2.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd yr holl ddogfennau swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Canlyniadau

## Cyfarfodydd

3.1 Yn ystod y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Comisiwn. Roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Cynigion Diwygiedig a chwblhau cynlluniau ar gyfer yr 'Adroddiad Cynigion Diwygiedig' yn ogystal â datblygu'r Argymhellion Terfynol a chwblhau'r 'Adroddiad Argymhellion Terfynol'. Bu'r Comisiwn hefyd yn cynnal ac yn cymryd rhan yng nghyfarfod blynyddol Comisiwn Ffiniau'r DU ym mis Tachwedd 2022.

## Y Gymraeg

3.2 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Comisiwn ar weithrediad Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.

## Gwybodaeth

3.3 Mae'r Comisiwn yn sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ag sy'n ymarferol trwy'r wefan (www.comffin-cymru.gov.uk.gov.uk). Ymatebir i geisiadau am wybodaeth nad yw ar gael ar y wefan. Mae'r Comisiwn wedi gosod targed o 20 diwrnod i ymateb i geisiadau o'r fath. Yn 2022-23 derbyniodd y Comisiwn chwe chais am wybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod. Mae hyn yn cymharu â 10 cais a dderbyniwyd yn 2021-22.

# Cyllideb a Gwariant

## Gwariant Ebrill 2022 i Mawrth 2023

4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

### Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant

| Elfen y Gyllideb | Cyllideb (£) | Gwirioneddol (£) |
|---|---|---|
| Cyflogau Staff | 352,100 | 305,648 |
| Ffioedd Comisiynwyr | 29,000 | 25,700 |
| Adeiladau'r Swyddfa | 38,160 | 35,229 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 8,150 | 3,233 |
| Lletygarwch | 350 | 639 |
| TG a Thelathrebu | 29,950 | 29,479 |
| Costau Adolygu Eraill* | 107,360 | 116,702 |
| **Cyfanswm** | **565,070** | **516,630** |

*yn cynnwys y cyfryngau a hysbysebu, hyfforddiant, postio, argraffu a chyfieithu.

4.2 Mae Tabl 1 yn dangos, ar gyfer 2022-23, bod y Comisiwn Ffiniau wedi tanwario ei gyllideb o £48,440.

4.3 Roedd cyflogau staff yn llai na'r amcangyfrif oherwydd y gohiriwyd recriwtio staff ychwanegol a derbyniwyd ad-daliad costau cyflog ar gyfer aelod o staff a secondiwyd i Lywodraeth Cymru. Roedd Ffioedd y Comisiynydd yn llai na'r amcangyfrif oherwydd bod angen llai o gyfarfodydd nag a amcangyfrifwyd. Roedd y ffaith bod cyfarfodydd y Comisiwn yn cael eu cynnal o bell hefyd yn golygu nad oedd llawer o ofynion ar gyfer Teithio a Chynhaliaeth.

4.4 Roedd costau adolygu yn uwch na'r amcangyfrif oherwydd bod cost cyfieithu sylwadau yn sylweddol fwy na'r amcangyfrif. Yn ogystal, roedd costau ar gyfer cyngor cyfreithiol ac ailosod caledwedd TG oedd wedi darfod yn fwy nag a amcangyfrifwyd.

## Ffioedd a Threuliau'r Aelod

4.5 Yn ystod 2022-23 hawliwyd y ffioedd a'r treuliau canlynol gan Aelodau'r Comisiwn:

| Aelod | Ffioedd | Treuliau |
|---|---|---|
| Mr H V Thomas | £4,044 | £887 |
| Mr S Hartley | £4,802 | £1,089 |

# Rhaglen Waith ar gyfer 2023/24

5.1 Amcanion penodol y Comisiwn yn 2023/24 fydd:

- Cyflwyno Argymhellion Terfynol ar gyfer Adolygiad 2023 erbyn diwedd Mehefin 2023.
- Cyhoeddi pob copi caled a dogfennaeth electronig ar gyfer cyhoeddi'r Argymhellion Terfynol;
- Bod wedi paratoi a chyhoeddi'r holl ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd yn y trydydd cyfnod ymgynghori ar y cynigion diwygiedig;
- Cynnal ymarfer 'Gwersi a Ddysgwyd' erbyn diwedd Rhagfyr 2023.
- Paratoi adroddiad ar weithrediad Safonau'r Gymraeg yn ystod 2022-23 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn; ac

## Cyllideb

5.2 Er mwyn gallu cyflawni'r amcanion a restrir yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £255,000 i'r Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn naill ai yn Gymraeg neu Saesneg.  I gysylltu â'r Comisiwn, ysgrifennwch at:

Commisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan,
Caerdydd, CF24 0BL

Ffôn: +44 (0)29 20464819
Ffôn: +44 (0)29 21055521
E-bost:
ymholiadau@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron
2023